OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1069 (Cy. 252) (C. 61)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1) 2021

*Gwnaed - - - - 21 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 84(2), (3) a (4) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 29 Medi 2021**

**2.** Daw adrannau 1 i 5 o'r Ddeddf i rym ar 29 Medi 2021.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 29 Medi 2021 at ddibenion dyroddi neu ddiwygio cod o dan adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf**

**3.** Ni ddaw adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf i rym ar 29 Medi 2021 ond at ddibenion dyroddi neu ddiwygio cod o dan yr adrannau hynny.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 23 Tachwedd 2021 at ddibenion dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 8 o'r Ddeddf**

**4.** Ni ddaw adran 8 o'r Ddeddf i rym ar 23 Tachwedd 2021 ond at ddibenion dyroddi neu ddiwygio cod o dan yr adran honno.

(**1**) 2021 dsc 4.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

21 Medi 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf").

Daw'r darpariaethau a restrir yn erthygl 2 i rym yn llawn ar 29 Medi 2021. Mae'r darpariaethau hyn yn nodi'r cysyniadau sylfaenol sy'n cael effaith mewn perthynas â'r cwricwlwm.

Daw'r darpariaethau a restrir yn erthygl 3 i rym ar 29 Medi 2021 ond dim ond at ddibenion dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 6 (Cod yr Hyn sy'n Bwysig) ac adran 7 (y Cod Cynnydd) o'r Ddeddf.

Daw'r ddarpariaeth a restrir yn erthygl 4 i rym ar 23 Tachwedd 2021 ond dim ond at ddibenion dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 8 o'r Ddeddf (y Cod ACRh).